



# Ysgol Eifionydd Porthmadog

Pennaeth mewn gofal/ Headteacher in charge : Mr. Dewi Rhys Bowen B.Sc.  
Ysgol Eifionydd • Porthmadog • Gwynedd LL49 9HS

Ffôn / Phone : (01766) 512114 Ffacs / Fax : (01766) 514785

Safle Wê:- <http://www.eifionydd.gwynedd.sch.uk>

e-bost:- [cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk](mailto:cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk)

## Tachwedd 2015

Annwyl Riant / Gwarchodwr,

### CYFARFOD BLYNYDDOL RHINIEN GYDA'R LLYWODRAETHWYR

Amgaeaf gopi o Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn academaidd 2014-2015

Yn gywir iawn,

**Bethan Nickson**

Cadeirydd y Llywodraethwyr

-----✂-----✂-----✂-----✂-----  
*Ni gynhaliwyd cyfarfod blynyddol rhieni gyda'r llywodraethwyr yn 2013-2014*

**Rhaid i'r ddeiseb yn galw am gyfarfod gynnwys llofnodion 10% o rieni disgyblion cofrestredig. Gweler crynodeb o ganllawiau ynghylch y dyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni ar safle we yr ysgol**

## Ysgol Eifionydd Porthmadog

### Cyfarfod Blynyddol Rhieni 2014-2015

Enw'r Rhiant/Gwarchodwr: \_\_\_\_\_

Enw'r plentyn hynaf yn yr ysgol: \_\_\_\_\_

Dosbarth: \_\_\_\_\_

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_



Welsh Network of Healthy School Schemes



Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

Gwobr Cydnabod Ansawdd  
(Gogledd Cymru a Phowys)  
Recognition of Quality Award  
(North Wales and Powys)



Ysgol Eifionydd



CBAC • WJEC  
Canolfan Gymeradwyddig • Approved Centre



## Ysgol Eifionydd Porthmadog (11-16)

### Adroddiad y Llywodraethwyr am y Flwyddyn Academaidd 2014/2015

Bydd yr adroddiad hwn sy'n grynodeb o sut y cyflawnodd y Llywodraethwyr eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd copi o'r adroddiad ar gael i rieni drwy ymweld â safle we'r ysgol.

#### 1. Y CORFF LLYWODRAETHU

<u>Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>	<u>Cynrychiolwyr Rhieni</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>
Cyng Selwyn Griffiths	31.08.2016	Mrs Nia Fon Lane (Is-gadeirydd)	31.08.2016
Cyng Jason Humphreys	31.08.2016	Mrs Meinir Lukacs	31.08.2018
Cyng Eirwyn Williams	31.08.2016	Ms Gwenan Parry	31.08.2018
Mrs Bethan Nickson (Cadeirydd)	31.08.2016	Mrs Bethan Price	31.08.2016
		Mrs Catherine Williams	31.08.2018 (13.1.15)
<u>Aelodau Cyfetholedig</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>	<u>Cynrychiolwyr Athrawon</u>	<u>Dyddiadau y daw y swydd i ben</u>
Mr Gwilym Jones	31.08.2018	Mr Sion Amllyn	31.08.2015
Mr Robert Lewis	31.08.2015	Mrs Lyn Parry Hughes	31.08.2017
Mr Huw Alan Roberts	31.08.2016	<u>Cynrychiolydd Staff Ategol</u>	
Mrs Amanda Rossell Smith	31.08.2016	Mrs Patricia Williams	31.08.2016

Pennaeth:

Mrs Alwen P Watkin (hyd at Ebrill 2015)

Pennaeth mewn gofal:

Mr Dewi Rhys Bowen

Clerc:

Swyddog Gweinyddol, Ysgol Eifionydd.

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

Llywodraethwyr

Gellir cysylltu â Mrs Bethan Nickson trwy law Clerc y

Mae'n bleser croesawu aelodau newydd y Corff Llywodraethu ar ddechrau eu cyfnod. Dymunaf bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith. Carwn ddiolch i weddill aelodau'r corff am eu parodrwydd i barhau i weithio er budd disgyblion yr ardal ac am eu ffyddlondeb cyson.

#### 2. ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR

Yr oedd 367 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol ar 1af o Fedi, 2014 gyda 24.23 o athrawon. Y rhif mynediad am y flwyddyn 2015/2016 yw 369.

Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyfarfu'r Corff Llywodraethu fel a ganlyn:-

Corff Llawn	-	23ain o Fedi, 2014
Is Banel Staffio	-	30ain o Fedi, 2014
Is Banel Cyllid	-	30ain o Fedi, 2014
Is Banel Adeiladau	-	7fed o Hydref, 2014
Is Banel Cyllid	-	18eg o Dachwedd, 2014
Is Banel Staffio	-	25ain o Dachwedd, 2014
Corff Llawn	-	2ail o Ragfyr, 2014
Corff Llawn	-	16eg o Ragfyr, 2014
Cyfarfod Arbennig Corff Llawn	-	13ain o Ionawr, 2015
Panel Diswyddo Gormodedd	-	21ain o Ionawr, 2015
Cyfarfod Arbennig Corff Llawn	-	27ain o Ionawr, 2015
Gweithgor Modelu Eifionydd	-	4ydd o Chwefror, 2015
Is Banel Staffio	-	24ain o Chwefror, 2015
Gweithgor Modelu Eifionydd	-	27ain o Chwefror, 2015
Corff Llawn	-	10fed o Fawrth, 2015
Is Banel Lles/Cwricwlwm	-	10fed o Fawrth, 2015
Panel Diswyddo Gormodedd	-	24ain o Fawrth, 2015
Panel Diswyddo Gormodedd	-	14eg o Ebrill, 2015
Is Banel Adeiladau	-	5ed o Fai, 2015
Is Banel Cyllid	-	5ed o Fai, 2015

Is Banel Lles/Cwricwylwm	-	19eg o Fai, 2015
Is Banel Staffio	-	19eg o Fai, 2015
Is Banel Staffio	-	16eg o Fehefin, 2015
Corff Llawn	-	7fed o Orffennaf, 2015

Trafodwyd y materion canlynol:-

- i) Ethol Cadeirydd/Is gadeirydd
- ii) Ethol aelodau ar gyfer yr Is-baneli
- iii) Trefn gweithredu'r Corff Llywodraethol
- iv) Monitro Cyllideb a rhagolygon cyllidol
- v) Polisiâu Ysgol
- vi) Canlyniadau Arholiadau Allanol.
- vii) Costau llogi adeilad
- viii) Costau Gwersi Offerynnol
- ix) Cyrsiâu Galwedigaethol
- x) Cynllun Datblygu ysgol
- xi) Cyfrifon Cronfeydd Ysgol
- xii) Gwasanaeth Arlwyfaeth
- xiii) Gwasaneth Cerdd William Matheias
- xiv) Cytundebau lefel gwasanaeth Sirol
- xv) Materion staffio
- xvi) Penodiadau Tim Rheoli
- xvii) Penodiadau staff dysgu
- xviii) Adolygu Polisi Rheolaeth perfformiad
- xix) Adolygu Presenoldeb Staff/disgyblion/llywodraethwyr

Cafwyd nifer o gyfarfodydd o'r is-baneli ble y trafodwyd Cyllid, Adeiladau, Cwricwylwm/Lles a materion staffio.

### **CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL**

Cafwyd canlyniadau T.G.A.U. da iawn eleni. Roedd ein canran llwyddiant yn uwch na'r ffigwr sirol a chryn dipyn yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Gweler y manylion ar ddiwedd yr adroddiad. Carwn longyfarch ein disgyblion ar eu llwyddiant a diolch i'r staff am eu gwaith caled yn eu paratoi. Rydym hefyd yn falch o glywed am lwyddiant ein cyn-ddisgyblion yn y colegau.

### **GWYBODAETH I RIENI**

Gellir cael manylion am gwricwylwm yr ysgol gan y Pennaeth. Yn flynyddol cyhoeddir llawlyfr gwybodaeth i rieni sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth a rheolau'r ysgol. Mae gwybodaeth gyffredinol hefyd ar gael drwy ymweld â safle Moodle yr Ysgol. Mae hefyd gwybodaeth ar gael trwy'r gwefanau cymdeithasol 'facebook' a 'twitter'.

### **MATERION STAFFIO**

Croesawyd nifer o aelodau newydd i'n plith ar ddechrau ac yn ystod 2014-2015:

- Ffarwelwyd â Mr Arfon Lloyd fel gofalwr yr ysgol ar ddiwedd Tymor yr haf 2014. Penodwyd Mr. Gareth Pritchard yn ofalwr ar yr ysgol yn ei le.
- Bu i Miss Amanda Cope a Ms. Nyfain Wynn eu apwyntio fel Cymorthyddion ADY.
- tan 31ain o Fawrth, 2015.
- Ar ddiwedd tymor yr Hydref, 2014 ffarwelwyd â Mrs. Delyth Humphreys, Pennaeth yr Adran Gerdd. Bu I Delyth gael ei phenodi yn Ddarlithydd Cerdd ym Mhrifysgol Bangor a cychwynnodd ar ei dyletswyddau ym mis Ionawr, 2015. Bydd yn gadael bwllch enfawr ar ei hôl ac mae ein diolch yn ddiffuant iddi am ei gwaith a'i hymroddiad diflino i'r ysgol. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.
- Diolch i Mrs. Caryl Roberts fu yn llenwi mewn yn lle Mrs. Delyth Humphreys tan ddiwedd tymor y Nadolig 2014.
- Ffarwelwyd a tair cymhorthydd ar ddiwedd Mawrth, 2015 sef Miss Amanda Cope, Miss Rhodd Jones a Miss Alwen Griffith. Diolchwn iddynt am eich gwaith caled a dymunwn bob llwyddiant i chwi yn y dyfodol.

- Apwyntiwyd Mr Dewi Bowen yn Bennaeth mewn gofal tan ddiwedd Awst, 2016 yn dilyn ymadawriad Mrs Watkin i Ysgol Dyffryn Nantlle ar ddiwedd Tymor y Pasg, 2015. Dymunwn pob lwc i Mrs Watkin a diolchwn iddi am flynyddoedd o wasanaeth i'r ysgol. Mae trafodaethau gyda'r Awdurdod yn parhau o ran strwythur parhaol uwch reolaeth yr ysgol.
- Dymunwn pob lwc i Mr David Bailey yn dilyn ei apwyntiad fel athro Mathemateg yn Ysgol Uwchradd Caergybi. Mae'r ysgol wedi apwyntio Mr David Martin fel athro Ymarfer Corff rhan amser yn ei le ac y bydd yn ymuno a ni ar ddechrau Medi, 2015.
- Mae Miss Catrin Elan sydd wedi'i apwyntio yn athrawes Cymraeg/Saesneg dros gyfnod mamolaeth Mrs Nia Jones. Hoffem eu llongyfarch ar enedigaeth eu merch fach ar ddechrau gwyliau haf, 2015.
- Hoffem longyfarch Mr a Mrs Sion Amllyn ar enedigaeth eu mab yn ystod gwyliau haf, 2015. Mae Miss Catrin Griffiths wedi ei apwyntio fel athrawes Addysg Grefyddol ar gyfer cyfnod mamolaeth Mrs Miriam Amllyn.
- Croesawn Miss Lona Wyn Williams l'w swydd fel Athrawes Gerdd o fis Medi, 2015, bydd yn gweithio 3 diwrnod gyda ni yn yr ysgol.
- Bu i Mr Medwyn Williams gael caniatâd i'w rhyddhau am diwrnod yr wythnos i weithio gyda CBAC. Secondiad am flwyddyn yn unig yw hon gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am flwyddyn arall. Bu hyn yn gymorth rhag gorfod diswyddo oherwydd gormodedd yn yr ysgol ar gyfer 2014-2015.

## **CYSYLLTIADAU A'R GYMUNED**

### Cyngerdd Nadolig

Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yn Neuadd yr Ysgol, nos Fercher 4ydd o Ragfyr, 2014  
Bu i ddisgyblion a chyn ddisgyblion yr Ysgol ynghyd a thalentau lleol gymryd rhan yn y noson.

### Dosbarthiadau Nos

Mae'r Ysgol yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer dosbarthiadau nos mewn meysydd megis Cymraeg, Cymraeg i Ddechreuwr a chyrsiâu'r Gwasanaeth Ieuenctid Yn ogystal, mae'r clwb Karate a Kick boxing yn gwneud defnydd rheolaidd o'r Neuadd Gymunedol.

### Ymgyrchoedd Codi Arian 2014-2015

Gweinyddir teithiau ysgol drwy Gronfa Ysgol Eifionydd  
Gweinyddir y wisg ysgol drwy Gronfa Gwisg Ysgol Eifionydd

Archwilir y Cronfeydd yn flynyddol gan gwmni Dunn & Ellis, Cyfrifwyr, Bank Place, Porthmadog, Gwynedd yn flynyddol

Casglwyd £2,326.53 ers Mis Medi, 2014 tuag at yr achosion canlynol:

- £260.00 tuag at MacMillan
- £689.03 tuag at Plant Mewn Angen
- £717,30 tuag at Adran Yr Urdd Ysgol Eifionydd
- £327,00 tuag at Gronfa Llio Dudley
- £333.20 tuag at Ymgyrch Clefyd y Galon
- £730.30 tuag at Walton Neuro and Science Fund

Penderfynodd y Cyngor Ysgol rannu'r arian a gasglwyd yn ystod wythnos gweithgareddau mis Gorffennaf fel a ganlyn:

- £300 Ambiwylans Awyr
- £300 Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd
- £100 Ebola

## **GWEITHGAREDDAU AC YMWELIADAU ADDYSGOL**

### Cyngor Ysgol

Yn ddiweddar bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn helpu i sicrhau bod holl wersi Ysgol Eifionydd yn wych. Cafwyd trafodaeth ym mhob dosbarth cofrestru ar "Beth oedd yn gwneud athro a gwers dda?" Rhannwyd y wybodaeth gyda'r athrawon mewn hyfforddiant mewn swydd oedd yn canolbwyntio ar y maes pwysig yma.

### Nosweithiau Rhieni

Cynhaliwyd pum noson rieni yn ystod y flwyddyn ysgol:

- Blwyddyn 7
- Blwyddyn 8
- Blwyddyn 9
- Blwyddyn 10
- Blwyddyn 11

Cynhaliwyd noson opsiynau i rieni blwyddyn 9 ar 17eg o Fawrth, 2015. Cawsant gyflwyniadau ar Lwybrau dysgu 14-19, dewisiadau, y farchnad lafur lleol ac arweiniad ar ddefnydd o Yrfa Cymru ar lein a'r BAC diwygiedig

### Noson Agored Cywllt Cynradd

Fel rhan o strategaeth yr ysgol i ddenu mwy o ddisgyblion i'r ysgol, cynhaliwyd noson i rieni blwyddyn 5 y dalgylch. Yn ystod y noson cawsant gyflwyniad i'r ysgol a'u llwyddiannau, cyflwyniad ar fanteision dwyieithrwydd ac effaith hynny ar ganlyniadau a chyfle i brofi peth o ddanteithion y gegin. Er mai cymharol isel oedd y nifer a fynychodd, roedd y rhai a fu yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld a gofyn cwestiynau. Bydd noson agored yn cael ei cael ei chynnal ystod tymor yr Hydref. Lle rhoddir cyflwyniad i rieni blwyddyn 6 ar gwricwlwm yr ysgol, trefniadau bugeiliol, canlyniadau ac ar y ddarpariaeth allgyrsiol eang sy'n cael ei gynnig gennym.

### Gweithgareddau Blwyddyn 5 a 6 - Cynradd

Trefnwyd dau ddiwrnod o wersi a gweithgareddau i flwyddyn 5 y dalgylch. Yn ystod y deuddydd cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwersi Cymraeg; Gwyddoniaeth; Ffrangeg; Cerdd; Addysg Gorfforol a Thechnoleg. Roedd ffurflenni arfarnu'r disgyblion yn gadarnhaol tu hwnt. Hoffwn ddiolch i'r holl staff a fu'n brysur yn sicrhau llwyddiant y ddau ddiwrnod. Yn yr un modd, cafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i dreulio dau ddiwrnod yn yr ysgol yn cael blas ar wahanol wersi. Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y disgyblion. Diolch i'r staff am bob cefnogaeth wrth sicrhau llwyddiant y deuddydd.

### Gweithgareddau 5 x 60

Mae gweithgareddau 5 x 60 parhau i fynd o nerth i nerth a hoffem ddiolch I Miss Jess Kavanagh am ei gwaith galed. Yn ystod y flwyddyn mae'r disgyblion wedi cael cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau isod:

- Pêl droed
- Rygbi genethod
- Ffitrwydd
- Gymnasteg
- Bocsiio
- Boot Camp
- Dawns
- Pêl Fasged
- Clwb saethu targed
- Hoci
- Golff
- Padlo yn y pwll
- Clwb Beicio Dwyfor
- Dodgeball

## Cynhaliwyd y teithiau isod yn ystod 2014-2015

- Taith yr Adran Gerdd i weld 'Les Mis' yn Llundain.
  - Taith yr Adran Saesneg - Drama McBeth
  - Coginio noddedig gan ddisgyblion blwyddyn 10 yr Adran Dechnoleg.
  - Diwrnod di-wisg ysgol i gasglu arian at Blant Mewn Angen.
  - Noson Agored i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 y dalgylch.
  - Taith Sglefrio'r Urdd i Lannau Dyfrdwy.
  - Trawsgwlad Eryri
- 
- Ymweliad Dinasyddiaeth Byd Eang â Neuadd Dwyfor i weld ffilm 'San Andreas'
  - Gweithgareddau Gyrfa Cymru yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn.

### Ymweld a cholegau

Bu disgyblion blwyddyn 10 yn ymweld â Choleg Meirion Dwyfor Dolgellau a Phwllheli yn ystod y dyddiau agored.

### Noson Wobrwyo - Bl 11

Cynhaliwyd Prom i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn y Clwb Golff Morfa Bychan. Cafwyd noson lwyddiannus iawn a chynhaliwyd seremoni wobrwyo. Diolch unwaith eto Mrs Lyn Parry Hughes, Mrs Gwyneth Owen a holl staff yr ysgol a fu yn gyfrifol am gydlynu'r trefniadau, ac I Mr Gwilym Jones y Rheolwr, Rhian a Staff y Gegin am eu croeso a'r bwyd bendigedig.

### Cynllun Gwobrwyo

Estynnwyd gwahoddiad i rai disgyblion i ddathlu eu llwyddiant gyda'r Cynllun gwobrwyo i fynychu trip i Cineworld, Llandudno ar 9fed o Orffennaf, 2015.

### Penwythnos Glan-llyn

Bu disgyblion o flynyddoedd 7, 8 a 9 yn ymweld â Glan-llyn am benwythnos yn ystod 2014 - 2015. Diolch I Mr Medwyn Williams am gydlynu'r trefniadau.

### Ymweliad Technocamps

Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 brofiad o rwydweithio 'Raspberry Pi' er mwyn hybu sgiliau cyfrifiadurol a chael profiad o dechnoleg newydd.

### Lori Ni

Ymwelodd 'Lori Ni' â'r ysgol yn ystod mis Ionawr. Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 ymweld â'r lori mewn grwpiau bychain. Elwodd y disgyblion o'r profiad o gael gwybodaeth am wahanol faterion sydd o ddiddordeb i bobl ifanc.

### Taith yr Adran Wyddoniaeth

Bu disgyblion blwyddyn 8 ym Mhlas Tan y Bwlch yn gwneud gwaith maes fel rhan o'u huned Ecoleg.

### Taith Ffrainc (Adran yr Urdd)

By nifer o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10 ar daith I Baris yn ysgol Gwyliau'r Pasg, 2015. Diolch I Miss Eiliw Haf a Mr Medwyn Williams am drefnu.

### Profiad Gwaith

Bu disgyblion blwyddyn 10 yn treulio wythnos ar brofiad gwaith yn ystod mis Gorffennaf - estynwyn ein diolch i'r holl weithleoedd am dderbyn myfyrwyr o'r ysgol. Diolch i Mr Hywel Roberts am ei waith caled yn trefnu.

### Wythnos gweithgareddau

Cynhaliwyd wythnos weithgareddau i flynyddoedd 8-10 ar ddechrau mis Gorffennaf, 2015. Cafodd gweithgareddau amrywiol eu cynnal gan gynnig rhywbeth at ddant pawb.

## **LLWYDDIANNAU**

### Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 2015

Bu nifer o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaerffili yn ystod hanner tymor. Llongyfarchiadau arbennig i holl ddisgyblion yr Ysgol a fu yn llwyddiannus yno. A diolch i Mrs Caryl Roberts am ei hyfforddi

### Maes Chwaraeon

Mae'r Adran Addysg Gorfforol wedi bod wrthi'n brysur unwaith eto ac maent wedi profi cryn lwyddiant.

Estynwyd llongyfarchiadau i'r canlynol:

- Medi Harris BL7, Lora Lukacs BL11 a Morgan Lukacs BL8 gyda'I llwyddiant gyda'r cystadleuthau nofio yn ystod y flwyddyn.
- Cari Davies ar gael ei dewis i gynrychioli tîm hoci dan 16 Cymru.
- Tim Hoci genethod dan 14oed ar fynd trwodd I gynrycholi Meirion/Dwyfor yn nhwrnament Eryri.
- Llongyfarchiadau i'r disgyblion a ddaeth l'r brig yn nghystadleuaeth rasmus trawsgwlad Meirion/Dwyfor yn Nolgellau.
- Tîm rygbi merched blwyddyn 8,9 a 10 wedi ennill cystadleuaeth rygbi ysgolion Gwynedd a Môn am yr ail flwyddyn yn olynol.
- Tîm rygbi bechgyn blwyddyn 9 a 10 wedi llwyddo ennill Plât Ysgolion Eryri.
- Tîm pêl droed merched Bl 9 a 10 wedi llwyddo i gyrraedd gêm derfynol Ysgolion Cymru am y pedwerydd tro yn olynol.
- Tîm Hoci dan 14 wedi llwyddo i gyrraedd gemau terfynol Cymru gyfan yn Abertawe.
- Gwion Jones blwyddyn 8 wedi llwyddo i gael ei ddewis i gynrychioli tîm hoci Gogledd Cymru.
- Medi Harris sydd ym mlwyddyn 7 wedi ennill 9 cystadleuaeth yng Nghystadlaethau Nofio Cymru.
- Shannon Dukes a Cassia Pike ym mlwyddyn 9 wedi cynrychioli tîm pêl droed merched Cymru dan 15 mewn twrnament yn Ynysoedd Faroe. Mae'r ddwy hefyd wedi cynrychioli tîm Cymru dan 17 mewn twrnament yng Nghaerdydd.
- Cynhaliwyd cystadlaethau Mabolgampau Ysgolion Eryri  
Llongyfarchiadau i'r canlynol:
  - Iwan Davies 1af yn y ras 100m.
  - Steffan Jones 2il yn y ras 200m.
  - Iwan Davies 1af yn y naid hir.
  - Holi Fitzjohn 2il yn y ras 100m.
  - Lleucu Lane 1af yn y ras 800m.
  - Leony Thomas 1af yn y ras 1,500m.
  - Mali Quaeck 1af yn y ddisgen.
  - Elise Connor 2il yn y naid hir.
  - Cassia Pike 1af yn y ras 800m.
  - Gwenno Till 1af yn y naid uchel.
  - Alaw Jones 1af yn y naid hir.
  - Cassia Pike 1af yn y bicell.

Llongyfarchiadau hefyd i'r timau athletau ar eu llwyddiant yn Athletau NASUWT

Diolch i Mrs Lyn Parry Hughes, Mr Gwyn Owen a Mr David Bailey am eu gwaith caled.

## **MATERION ADDYSGOL**

### **Hyfforddiant Mewn Swydd**

Bu tri diwrnod hyfforddiant mewn swydd yn ystod y Tymor yr Hydref sef 01.09.14, 24.10.14 a 26.11.14

Clustnodwyd y diwrnodau ar gyfer rhaedru gwybodaeth i staff ar faterion megis:

- Canlyniadau
- Blaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Ysgol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Polisi a charfanau Iaith
- Anghenion meddygol disgyblion
- Ymresymu Llythrennedd
- Ymresymu Rhif
- Pedagogiaeth

Yn dilyn y cwrs ar bedagogiaeth, sefydlwyd Cymuned Ddysgu Broffesiynol yn yr ysgol. Ar y 26.11.14 bu'r staff a fu'n rhan o'r gymuned yn darparu hyfforddiant i'r staff llawn ar nodweddion addysgu a dysgu rhagorol yn dilyn yr arweiniad a'r ymchwil a gawsant. Neilltuwyd gweddill y diwrnod i athrawon gwblhau'r cylch Rheoli Perfformiad a gosod amcanion o'r newydd ar gyfer y flwyddyn addysgol 2014/15.

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar 6.2.15. Roedd ffocws yr hyfforddiant ar:

- Datblygu Sgiliau darllen disgyblion
- Datblygu sgiliau rhifedd gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau ymresymu rhifyddol
- Tracio ac adrodd ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd
- Polisi marcio ac ail ddrafftio

Bu noson hyfforddiant mewn swydd gwyll ar 19/5/2015 ar y thema 'Gwella'r grefft o addysgu'n barhaus.' Rhannwyd y staff i 4 grŵp thematig - dau pedagogiaeth, un rhif ac un llythrennedd. Roedd grwpiau yn trafod a gwrandao ar syniadau ar sail ymchwil ynglŷn â sut i wella technegau addysgu cyn penderfynu ymroi i welliant penodol dros y mis dilynol. Sefydlwyd llyfrgell fechan o arfer dda ryngwladol. Mae'n fwriad cwrdd yn fisol i adrodd nôl i'r grŵp ar gynnydd cyn sefydlu'r arfer newydd. Cafwyd ail noson gwyll 23/6/2015 yn ffocysu ar 'Ddatblygu Asesiadau Rhifedd Cyfoethog'. Bu'r adrannau Gwyddoniaeth, Technoleg ac Addysg Gorfforol yn rhannu arfer dda yn y maes cyn i'r adrannau mynd ati i ddechrau datblygu o leiaf un asesiad tasg gyfoethog sy'n ymwneud a'r fframwaith rhifedd.

## Hunan Arfarnu

- Yn dilyn canlyniadau Haf 2014 lluniwyd arfarniad ysgol gyfan ar ganlyniadau'r Haf. Yn ogystal, mae pob Pennaeth Adran wedi cwblhau Hunan arfarniad ar ganlyniadau CA3 a CA4 gan ddilyn fformat cytunedig. Yn sgil hyn, gwelwyd gwell cysondeb yn ansawdd yr arfarniadau. Bydd yr arfarniadau hyn yn cael eu rhannu gydag aelod cyswllt y Corff Llywodraethu.
- Fel rhan o'n prosesau hunan arfarnu, bu'r Uwch Dim Rheoli (UDRH) yn arfarnu llyfrau disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 cyn hanner tymor. Roedd ffocws yr arfarniad ar ymateb disgyblion i farcio'r athrawon. Gweler copi ynghlwm. Yn dilyn yr arfarniad gwelwyd bod angen llunio polisi traws ysgol ar farcio gwaith disgyblion a hefyd yr angen am bolisi ail ddrafftio gwaith disgyblion. Mae UDRH wedi gofyn am arweiniad pellach gan Mrs Janet Hughes, Ymgynghorydd annibynnol sydd â phrofiad helaeth o arolygu ysgolion ym maes llythrennedd.
- Diweddarwyd Patrymlun Hunan Arfarnu'r ysgol yn sgil canlyniadau eleni ac ymarferiadau craffu .

## Cynllun Datblygu Ysgol

- Yn dilyn toriadau sirol ail strwythurwyd cwricwlwm yr ysgol yn llwyddiannus heb effaith negyddol cwricwlaidd. Mae trafodaethau gyda'r Awdurdod yn parhau o ran cydweithio gydag ysgol gyfagos o ran uwch rheolaeth yr ysgol.
- Parhawyd i dargedu cynhaliaeth i'r adrannau Mathemateg a Saesneg er mwyn cynnal safonau.
- Parhawyd i gynnal sesiynau adolygu i ddisgyblion yn ystod amser cinio, ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Diolch i'r holl staff am eu hymroddiad.
- Cynhaliwyd cyfarfod adran ar y cyd gydag Ysgol Ardudwy. Roedd ffocws y cyfarfod ar hunan arfarnu adrannol. Bydd angen ail edrych ar strwythurau hunan arfarnu adrannol flwyddyn nesaf.



- Defnyddiwyd ein system dracio cynnydd CA4 a Mentora cadarnhaol er mwyn adnabod unrhyw batrymau o dangyflawni. Bydd cyfweiliadau Mentora Cadarnhaol yn digwydd yn rheolaidd gyda blwyddyn 11. Datblygwyd system dracio i CA3 fydd angen ei weithredu tymor nesaf.
- Dechreuwyd cynnyddu atebolrwydd rheolwyr canol trwy ffurfio y Tim Trothwy Lefel 2+. Mae'r grwp yn cynnwys yr UDRh, penaethiaid pynciau craidd a phennaeth blynyddoedd 10 a 11. Ffurfiolwyd y cyswllt rheolwyr canol ymhellach trwy cofnodi ymweliad thematig rhwng yr adran ac aelod o'r tim rheoli. Yn dilyn y Sulgwyn cafwyd ffocws ar asesiadau ac ymateb i dracio yn CA4.
- Disgyblion PYD wedi eu targedu ac wedi derbyn cymorth penodol ychwanegol.
- Ffocws uchel i bresenoldeb a phrydlondeb yn parhau. Cynnydd bach wedi digwydd.
- Arsyllwyd gwersi fel rhan o drefn rheoli perfformiad a hunan arfarnu'r ysgol. 80% o'r gwersi wedi'u arfarnu yn dda.
- Adrannau wedi canolbwyntio ar sicrhau fod asesiadau CA3 yn ymestyn y mwyaf abl. Peth cynnydd yn lefelau 6+ a 7+ wedi ei weld. Yr adran Mathemateg wedi wynebu asesiad ansawdd cenedlaethol.
- Yr UDRh wedi monitro ymateb athrawon i waith disgyblion eto tymor yma. Gwelwyd fwy o gysondeb eleni.
- Cynhaliwyd sesiynau boreol gan diwtoriaid dosbarth er mwyn ymarfer sgiliau darllen a deall Saesneg a Chymraeg a rhif eu disgyblion. Mae'r cynnydd yn cael ei dracio trwy brofion.
- Cynhaliwyd sesiynau 'Lexia' i ddatblygu sgiliau sillafu a darllen Saesneg bob bore am dymor gyda dosbarth o flwyddyn 7. Hyd yn hyn mae dau ddsbarth wedi dilyn y rhaglen.
- Rhoddwyd arweiniad i athrawon ar ddefnydd o HWB+, fydd angen parhau gyda hyfforddiant pellach flwyddyn nesaf.
- Strategaeth cyfranogiad yr ysgol yn cael ei weithredu. Cyfarfodydd dosbarth a chyngor yn digwydd yn rheolaidd. Sylw tymor yma wedi ei rhoi i ymddygiad.
- Cynhyrwyd bwletin tymhorol cyntaf 'Min y Traeth' er mwyn hysbysu digwyddiadau'r ysgol ac ambell neges amserol i rieni.

### Cymunedau Dysgu Proffesiynol

Mae un gymuned ddysgu broffesiynol yn weithredol ar hyn o bryd o fewn yr ysgol. Mae un gymuned ddysgu wedi ei sefydlu ar y cyd gydag ysgolion cynradd y dalgylch ac yn edrych yn benodol ar ddatblygu cywirdeb iaith disgyblion CA2 a CA3.

### Cwricwlwm a'r Cyrsiau Galwedigaethol

- Yn unol â gofynion y mesur mae'r ysgol yn parhau i gydweithio gyda Choleg Meirion Dwyfor ac Ysgol Ardudwy wrth gynllunio a darparu cwricwlwm CA4. Bu i'r Pennaeth a'r Dirprwy gyfarfod gydag Uwch Dim Rheoli Ysgol Ardudwy yn ddiweddar er mwyn cynllunio'r Cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd angen i'r panel lles/cwricwlwm resymoli'r nifer o gyrsiau a gynigir flwyddyn nesaf yng ngwyneb y diffyg yng nghyllideb 2015/16.
- O Fedi 2015 bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i gwricwlwm CA3 a CA4. O Fedi bydd manylebau TGAU newydd yn cael eu cyflwyno yn y pynciau a ganlyn: Cymraeg iaith, Saesneg iaith a Mathemateg. Bydd dau bapur Mathemateg TGAU yn orfodol i bob disgybl sef Mathemateg- Rhifedd a Mathemateg. Bydd manylebau diwygiedig hefyd mewn Llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg ond ni fydd y rhain yn orfodol. Yn ogystal, bydd cymhwyster y BAC yn newid o Fedi 2015.
- O Fedi 2016 bydd manylebau newydd mewn Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Bioleg, Celf a Dylunio, Cemeg, Cerddoriaeth, Daearyddiaeth, Drama, Dylunio a Thechnoleg, Ffiseg, Hanes, Ieithoedd Tramor. Bydd disgwyli i bob disgybl gael dau gymhwyster TGAU mewn Gwyddoniaeth.
- Bydd y dangosyddion a ddefnyddir o 2017 ymlaen yn newid i Sgôr pwyntiau wedi'i gapio - 9 gradd uchaf (cynnwys Cymraeg iaith, Saesneg iaith, dau gymhwyster Mathemateg, a dau wyddoniaeth a'r 4 gradd uchaf arall).
- Disgwyli i ysgolion asesu cynnydd dysgwyr yn erbyn y fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ers mis Medi. Bydd angen adrodd yn ffurfiol i rieni ar gynnydd eu plentyn yn erbyn y fframwaith ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.
- Cynhaliwyd cyfarfod pontio cynradd uwchradd ar ddechrau tymor yr Hydref. Penderfynwyd y cyfarfod i sefydlu Cymuned Ddysgu Broffesiynol ar y cyd gyda'r cynradd i edrych ar agwedd benodol o lythrennedd. Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd y bydd ffocws y gymuned ar ddatblygu cywirdeb iaith disgyblion CA2 a CA3.

Cyd amserlenwyd ar draws 2 golofn dewis. Bydd y gwersi yn cael eu cynnal flwyddyn nesaf ar ddydd Llun a Dydd Mawrth i flwyddyn 11 ac ar ddydd Mercher a dydd Iau i flwyddyn 10. Ystyrir isafswm o 8 disgybl fel nifer hyfyw ar gyfer rhedeg cwrs TGAU/BTEC.

COLOFN A	COLOFN B	COLOFN C
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg Grefyddol (E)</li> <li>• Daeryddiaeth (E)</li> <li>• Arlwyo (E)</li> <li>• Dylunio a Thechnoleg - Cynhyrchion Graffeg (E)</li> <li>• Peirianeg (E)</li> <li>• Profiad Gwaith Estynedig (E)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol Digidol (CMD)</li> <li>• Amaethyddiaeth (CMD)</li> <li>• Peirianeg (CMD)</li> <li>• Addysg Gorfforol (E)</li> <li>• Celf (E)</li> <li>• Ffrangeg (E)</li> <li>• Dylunio a Thechnoleg - Deunyddiau Gwrthiannol (E)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hanes (E)</li> <li>• Cyfrifiadureg (E)</li> <li>• Datblygiad y Plentyn (E)</li> <li>• Cerdd (E)</li> <li>• Busnes (A)</li> <li>• Celfyddydau Perfformio (A)</li> <li>• Profiad Gwaith Estynedig (E)</li> </ul>

- Newidiwyd amserlen yr ysgol ar ôl gwyliau'r Sulgwyn. Fodd bynnag bydd y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau yng Ngholeg Meirion Dwyfor cychwyn ar eu cyrsiau hwy ym mis Medi. Mae'r niferoedd sy'n dilyn y cyrsiau fel a ganlyn:

#### **Coleg Meirion Dwyfor:**

- BTEC Peirianeg Mor: 6
- BTEC Cyfryngau Rhyngweithiol: 8
- BTEC Amaethyddiaeth: 4

Effeithiodd yr ansicrwydd o ran arian y Rhwydwaith 14 i 19 leihau yn sylweddol ar yr arlwy o gyrsiau allanol eleni. Nid oedd yr un disgybl yn dymuno dilyn cwrs Celfyddydau Perfformio ac roedd y cwrs Busnes yn llawn disgyblion Arudwy. Yn yr un modd ni ddaeth disgybl o Ysgol Arudwy i ddilyn y cyrsiau Daeryddiaeth ac Addysg Grefyddol yn Eifionydd. Fodd bynnag roedd cynnydd sylweddol ym mhoblogrwydd a chynhwysedd cyrsiau'r Coleg. Trwy gydweithio fel hyn, llwyddwyd i sicrhau'r ystod gyfreithiol o ddewisiadau i'r disgyblion ac ychwanegu at ein cynhwysedd fel ysgol.

Dylid nodi fod y BTEC ar ei newydd wedd yn cynnwys elfen wedi ei brofi trwy arholiad ar lein. Rhaid llwyddo yn yr elfen hon cyn gellir ennill cymhwyster gwerth lefel 2.

Y Fagalariaeth -BAC: Mae natur y BAC eleni wedi newid yn sylweddol. Mae'r BAC ar ei newydd wedd yn cynnwys tair her - Menter, Dinasyddiaeth Fyd Eang a Chymuned yn ogystal â phrosiect unigol. Mae pob disgybl CA4 yn dilyn cymhwyster y BAC. Caiff y disgyblion hyd at ddwy awr o wersi gydag athro arbenigol.

Rydym wedi parhau gyda'n trefn o Fentora Cadarnhaol a thracio cynnydd gyda disgyblion blwyddyn 11. Roedd holiadur disgyblion eleni yn nodi fod 84% o'r disgyblion o'r farn ei bod yn ddefnyddiol i drafod yr amcan raddau a thargedau. Rhoddir cymorth unigol ychwanegol trwy gefnogaeth Anogwr Dysgu am 16.6 awr.

#### **Cynhwysiad**

Eleni eto, mae'r ysgol wedi derbyn grant gan yr Awdurdod ar gyfer rhedeg Uned Cynhwysiad. Bellach un athro llawn amser a gyflogir. Mae'r Uned yn parhau i weithio'n dda ac mae ymateb staff a disgyblion wedi bod yn hynod positif. Llwyddodd pob disgybl yn yr uned llynedd i gael oleiaf 5 TGAU A\* - G. Eleni mae tri disgybl yn derbyn cyfran sylweddol o'u cwricwlwm yn yr Uned a chaiff rhai disgyblion eu tynnu allan o wersi penodol i weithio yn yr Uned. Darparir adroddiad wythnosol i'r rhieni ar gynnydd y disgyblion yn yr Uned a chynhelir cyfarfodydd adolygu rheolaidd.

Mae Ms. Denise Jones a Mrs. Sioned Lewis yn parhau i weithredu fel Cwnselydd yn yr ysgol am un diwrnod yr wythnos.

Trefnwyd cyrch presenoldeb ar y cyd rhwng yr ysgol, Heddlu a'r Swyddog Lles. Mae codi lefel presenoldeb yn un o flaenoriaethau ein Cynllun Datblygu Ysgol. Mae Miss Eleri Wyn yn parhau fel Swyddog Prydlondeb a Phresenoldeb hynod o weithgar. Er nad ydym wedi llwyddo cyrraedd y targed presenoldeb o 95% rydym wedi gweld cynnydd bach i 94.1% eleni. Mae penaethiaid blwyddyn yn weithredol ac yn dwyn pwysau ar ddisgyblion sy'n broblemus. Ceir cynllun gwobrwyo ar gyfer disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Dechreuodd P.C. Dewi Owen, cyn-ddisgybl o'r ysgol fel swyddog Heddlu Ysgolion a Chymunedau. Mae'n cyfrannu i raglen ABAH yr ysgol. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd. Dymunwn hefyd gofnodi ein diolch i P.C. J. P. Rowland a fu'n gwneud y gwaith am nifer o flynyddoedd yn yr ysgol. Dymunwn yn dda iddo yntau yn ei swydd newydd.

O fis Medi, 2015 ymlaen mae'r Awdurdod yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r ysgolion a thalu am yr adnodd trwy fformiwla yn seiliedig ar faint ysgol a lefel cinio am ddim. Bellach cyflogir un athro sef Mr Sion Cadwaladr. Mae'n fwriad defnyddio'r uned i gefnogi grŵp bach anghenus o ddisgyblion ym mlwyddyn 10 ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. Mae'r Uned yn gweithion rhagorol o dda ac mae ymateb staff a disgyblion yn parhau yn bositif iawn.

Mae 14 disgybl wedi mynychu'r uned yn rhan neu'n llawn amser eleni. Saith o flwyddyn 11 gyda dau ohonynt yn llawn amser. Dau rhan amser o flwyddyn 10 a phum rhan amser o flwyddyn 8.

Hoffwn ddiolch i'r uchod am eu cefnogaeth ac am eu gwaith o fewn yr ysgol.

### **Targed Cynhaliaeth**

Fel rhan o strategaeth codi safonau'r ysgol, parhawyd i dargedu cynhaliaeth ychwanegol i'r adrannau Saesneg a Mathemateg.

#### **Saesneg:**

Mae Mrs Janet Hughes yn parhau i gydweithio gyda'r adran i roi sylw i:

- Canlyniadau Saesneg 2014 - dadansoddi yn erbyn targedau
- Dadansoddi data o'r Ardd Furiog CBAC er mwyn adnabod meysydd sydd angen sylw pellach
- Set Data Craidd CA3 - canlyniadau
- Pennu strategaethau ymyrraeth ar gyfer sicrhau cyflawni targed lefel 2 2015 i gynnwys monitro llyfrau, tracio, cefnogaeth ychwanegol a mireini cywirdeb ieithyddol
- Newidiadau i TGAU 2015

Trafodwyd sut dylid amseru'r TGAU newydd a beth i'w gynnwys. Mae'n fwriad parhau gyda'r gefnogaeth yn dilyn yr holl newidiadau sydd yn y cwricwlwm Saesneg a datblygiadau mewn llythrennedd. Rhoddwyd clod mawr i arweinyddiaeth dros dro Miss Mary Atkinson yn dilyn llawdriniaeth Mrs Bethan Roberts.

Isel oedd canlyniadau Ionawr Saesneg (45% A\*-C), fodd bynnag mae hynny yn debyg i'r lefel a welwyd dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'r canlyniadau yn codi i'r 70au erbyn yr haf. Erys targed yr adran yn 76% A\*-C.

#### **Mathemateg a Rhifedd:**

Mae'r Pennaeth yn parhau fel aelod cyswllt o'r UDRH i'r adran ac yn cyfarfod y Pennaeth Adran yn wythnosol er mwyn tracio cynnydd a herio unrhyw danberfformio.

Bu i'r adran weithio'n eithriadol o galed yn ystod y tymor yr hydref yn paratoi disgyblion ar gyfer yr arholiadau TGAU a gynhaliwyd ym mis Tachwedd. Cynhaliwyd dosbarthiadau adolygu amser cinio ac ar ôl ysgol yn ogystal â gwersi yn ystod hanner tymor mis Hydref ac ar y penwythnosau. Hoffwn ddiolch i'r staff sydd wedi rhoi o'u hamser i adolygu gyda'r disgyblion.

Penderfynwyd creu grŵp dysgu ychwanegol ym mlwyddyn 11 ar gyfer arholiadau TGAU Haf 2014. Defnyddiwyd arian grant refeniw'r Awdurdod i gyllido'r cynllun a phenodwyd Mr David Bailey dros dro i addysgu'r grŵp. O ganlyniad i dargedu bwriadus llwyddwyd i godi canlyniadau'r adran eleni

i 72.4% A\* - C o'i gymharu â 63.6% llynedd. Er y cynnydd mae perfformiad yr adran yn eu gosod yn y trydydd chwarterl ym meincnodau cenedlaethol PYD (cinio am ddim).

Prynwyd gwasanaeth Mr. Dafydd Griffiths, Ymgynghorydd allanol i weithio gyda'r cyd-gysylltydd rhifedd ar strategaeth yr ysgol. Diwygiwyd strategaeth a pholisi'r ysgol yn sgil y Fframwaith Rhifedd. Bydd Mr. Griffiths, yn ymweld eto â'r ysgol ar y 12.01.15 i weithio gyda'r adran Mathemateg, Technoleg, Daearyddiaeth ac Addysg Gorfforol yn benodol.

Yr ydym yn parhau i dargedu cynhaliaeth ychwanegol i'r adrannau Saesneg a Mathemateg . Lluniwyd cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ac mae'r UDRH a'r Ymgynghorwyr yn monitro eu gweithrediad. Hoffwn annog yr aelod cyswllt o'r Llywodraethwyr i gynnal y cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Penaethiaid Adran er mwyn cefnogi gwaith yr UDRH a sicrhau atebolrwydd clir.

Yn dilyn arholiadau Ionawr mae canlyniadau A\*-C yn sefyll ar 74% gyda tharged heriol iawn o 81%. Mae'r cynnydd sylweddol yma mewn cymhariaeth â dwy flynedd yn ôl yn bennaf ddiolch i ail strwythuro'r amserlen. Trwy fandio gyda'r adran Wyddoniaeth mae'n bosib sicrhau addysgu effeithiol ar gyfer dau o'r setiau canolig allweddol.

Treialwyd rhaglenni cyfrifiadur 'My Maths' yn llwyddianus gan yr adran.

### **Clybiau sillafu a darllen:**

Darperir clybiau sillafu / darllen a grym rhif i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r clybiau yma yn cael eu cynnig yn ystod yr egwyl, gwersi penodol a chyfnodau boreol.

Parhawyd a'r cynllun 'Dyfal Donc' a 'Catch Up' a sefydlwyd yn ystod tymor yr haf. Cynlluniau yw'r rhain i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd disgyblion CA3 yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyflogir Mrs Nia Povey fel Uwch Gymhorthydd am bump bore'r wythnos i dargedu grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r cymorth yma'n cael ei ariannu trwy grant Amddifadedd y Llywodraeth (GAD).

Cyflogir Mrs. Ann Roberts Athrawes arbenigol ADY i dargedu disgyblion gyda'u sgiliau rhif.

- **Cymorth gyda darllen:** Bellach mae pedair rhaglen ymyrraeth wahanol yn rhedeg yn yr ysgol sef:
  - Ymyrraeth ddwys i ddisgyblion sydd ag oedran darllen is na 7.5 yn y Gymraeg/ Saesneg.
  - Penodwyd Uwch Gymhorthydd gyda'r grant amddifadedd i dargedu sylw dyddiol i ddisgyblion sydd â'u hoedran darllen rhwng 7.5. a 9.5.
  - Athrawon Cymraeg a Saesneg yn targedu cymorth i ddisgyblion sydd rhwng 6 a 18 mis yn is na'u hoedran cronolegol.
  - Grwpiau tiwtorial yn cael ymyrraeth ddwys am dymor ar raglen Lexia

Yn sgil targedu penodol, gwelwyd cynnydd da mewn oed darllen ymysg y gwahanol grwpiau.

### **Cymorth Darllen a Rhif:**

Mae'r ysgol yn parhau i ddarparu cymorth darllen a rhif ychwanegol i rai o ddisgyblion o blynoddoedd 7 i 11. Mae'r cymorth yma yn cael ei gynnig yn ystod yr egwyl, gwersi penodol a chyfnodau boreol.

Parhawyd â'r cynllun 'Dyfal Donc' a 'Catch Up'. Cynlluniau yw'r rhain i ddatblygu sgiliau darllen a llythrennedd disgyblion CA3 yn y Gymraeg a'r Saesneg. Derbyniodd 34 disgybl gymorth darllen yn bennaf trwy'r Saesneg gan Mrs Nia Povey. Disgyblion ADY a PYD a dargedir yn bennaf. Defnyddir profion darllen cenedlaethol fel modd o fesur cynnydd. Fodd bynnag mae'n fwiad defnyddio profion llawer mwy sensitif yn y dyfodol.

Mae'r cynllun cymorth rhif dwys ar gyfer disgyblion yn parhau. Mae 33 o ddisgybl wedi derbyn cymorth trwy'r cynllun gan Mrs Ann Roberts. Defnyddir profion Gillham + Hesse Number Screening er mwyn mesur cynnydd. Fel gyda'r cynllun darllen targedir disgyblion ADY ac PYD.

Rhoddir cymorth penodol i wella llawysgrifen pedwar disgybl ym mlwyddyn 7.

Mae'r cymorth uchod yn cael ei ariannu trwy grant Amddifadedd y Llywodraeth (GAD) a rhan o'r dyraniad ADY.

Yn ogystal â'r uchod mae rhai o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi darparu cymorth yn ystod cyfnodau boreol i ddisgyblion â sgiliau darllen a deall ychydig yn is na'u hoed cronolegol.

Defnyddir elfen o'r grant Gwella Ysgolion er mwyn ariannu 4 awr yr wythnos o gymorth Miss Catrin Elan i ddisgyblion sydd ag oed darllen a deall ychydig yn is na'u hoed cronolegol. Targedir darllen Saesneg 27 disgybl ym mlynnyddoedd 8 a 9 ers y Sulgwyn.

#### Profion Llythrennedd a Rhifedd

Eleni eto cynhaliwyd profion darllen a rhifedd statudol. Marciwyd y papurau gan athrawon arbenigol. Derbyniodd yr ysgol swm o £450 gan y Llywodraeth tuag at gostau marcio'r sgriptiau. Bydd canlyniadau'r profion llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) ynghyd a chanlyniadau'r profion rhifedd yn cael eu cyflwyno i'r Llywodraethwyr wedi inni dderbyn yr adroddiad crynodynol gan y Cynulliad.

**CA3:** Dyma farn grynodol yr Uwch Dim Rheoli a'r Rheolwyr Canol ar ganlyniadau CA3 Haf 2014. Bydd Mr. Ieuan Jones, Arweinydd Her GwE yn dilysu'r farn yma yn ystod ymweliad 1 a gynhelir ar 08.12.14 Am ddadansoddiad manwl gweler Hunan arfarniad Canlyniadau 2014.

Pwnc	Canlyniad 2014	Treigl tair blynedd
Cymraeg	da	Da
Saesneg	anfoddhaol	Da
Mathemateg	anfoddhaol	Digonol
Gwyddoniaeth	Digonol	Da
DPC	Da	Da
Celf	Da	Digonol
Technoleg	Rhagorol	Da
Daearyddiaeth	Digonol	Da
Hanes	Da	Da
Technoleg Gwybodaeth	Da	Da
leithoedd modern	Da	Da
Cerdd	Da	Da
Addysg Gorfforol	Rhagorol	Rhagorol

**CA4:** Dyma farn grynodol yr Uwch Dim Rheoli a'r Rheolwyr canol ar ganlyniadau CA4 haf 2014. Fel gyda chyfnod allweddol 3 bydd Arweinydd Her GwE yn dilysu'r farn yn y cyfarfod ar yr 8fed o Ragfyr.

Dangosydd	Canlyniad 2014	Treigl Tair
TL2+ (C/S a Mathemateg)	70.1% DA	Digonol
TL2 5+ TGAU A* - C	86.2% Digonol	Digonol
TL 1 5+ TGAU A* - G	98.9% Da	Da
DPC	70.1% Da	Digonol
Sgôr wedi ei gapio	365 Digonol	Digonol
Cymraeg A* - C	79.1% Da	Da
Saesneg A* - C	77% Da	Digonol
Mathemateg A* - C	72.4% Digonol	Digonol
Gwyddoniaeth A* - C	97.7% Da	Da

Canlyniadau'r Profion Llythrennedd a Rhifedd.

Dyma grynodeb o ganlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol:

Prawf	Blwyddyn	< 85	85 - 115	>115
Saesneg	7	20%	76%	4%
Saesneg	8	13%	74%	13%
Saesneg	9	11%	68%	21%

Prawf	Blwyddyn	< 85	85 - 115	>115
Cymraeg	7	24%	60%	16%
Cymraeg	8	24%	59%	16%
Cymraeg	9	13%	68%	18%

Prawf	Blwyddyn	< 85	85 - 115	>115
Gweithdrefnol Rhifedd	7	12%	76%	12%
Gweithdrefnol	8	10%	72%	18%

Rhifedd				
Gweithdrefnol Rhifedd	9	13%	50%	37%

Prawf	Blwyddyn	< 85	85 - 115	>115
Rhesymu Rhifedd	7	24%	60%	16%
Rhesymu Rhifedd	8	8%	77%	15%
Rhesymu Rhifedd	9	16%	55%	29%

### Clwb Bydis

Mae'r clwb bydis yn parhau i gael ei redeg gan y cymorthyddion yn ystod yr awr ginio. Mae'r clwb hwn yn allweddol i ddisgyblion â chanddynt sgiliau cymdeithasol gwan.

### Cyngor Ysgol

Yn ddiweddar bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn helpu i sicrhau bod holl wersi Ysgol Eifionydd yn wych. Cafwyd trafodaeth ym mhob dosbarth cofrestru ar "Beth oedd yn gwneud athro a gwers dda?" cyn i holl aelodau'r Cyngor gasglu a chrynhoi'r prif negeseuon. Penderfyniad disgyblion Eifionydd oedd bod y gwersi gorau yn:

- Cynnwys llawer o amrywiaeth ac elfennau gweithredol,
- yn dilyn patrwm da o amrywiaeth o wythnos i wythnos,
- yn rhoi dewis i'r disgyblion ar ddechrau'r uned ynglŷn â pha dechnegau hoffent eu defnyddio i ddysgu'r gwersi e.e. drama, gwaith grŵp, cadair goch, cwis ac yn y blaen.

Rhannwyd y wybodaeth gyda'r athrawon mewn hyfforddiant mewn swydd oedd yn canolbwyntio ar y maes pwysig yma.

### Cyswllt Cynradd / Uwchradd

Cynhelir cyfarfodydd Cyswllt Cynradd/Uwchradd yn dymhorol. Mae strategaeth bontio wedi ei chreu ar y cyd gyda'r Penaethiaid cynradd ac fe arfarnir ei heffeithlonrwydd yn rheolaidd. Caiff disgyblion cynradd gyfle i ymweld ar ysgol yn gyson fel rhan o'r strategaeth pontio.

### **Cyrchfannau disgyblion sydd dros 16 oed - 2014-2015**

*Disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 2014-2015 = 76*

<i>Cwrs mewn ysgol neu unrhyw gwrs addysg bellach</i>	67	88%
<i>Hyfforddiant</i>	2	3%
<i>Gweithio</i>	3	4%
<i>Di waith</i>	4	5%
<i>Dim gwybodaeth</i>	-	
<i>Wedi symud o'r ardal</i>	-	
<i>Arall</i>	-	

### **DISGYBLION SYDD AG ANGHENION CORFFOROL ARBENNIG**

Mae'r ysgol yn ysgol ddynodedig i blant ag anghenion corfforol arbennig ag i blant a nam golwg ac mae wedi ei haddasu i'r pwrpas hwnnw.

Gwelir y canlynol fel y prif egwyddorion:

- Sicrhau safonau uchel a chynhwysiad cymdeithasol llawn.
- Sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant ag anghenion addysgol arbennig.
- Cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau statudol perthynol i'r maes, megis yr Awdurdod Iechyd a'r Gwasanaeth Cymdeithasol.
- Sefydlu partneriaeth gyda'r rhieni a'r Cyrff Gwirfoddol sy'n eu cynrychioli.
- Sicrhau ymateb ysgol gyfan i anghenion addysgol arbennig a pheidio â chyfyngu cyfrifoldeb i staff penodol.

Lluniwyd polisi A.D.Y. yn yr ysgol. Mae'r polisi wedi'i fabwysiadu gan y Llywodraethwyr ac fe'i hadolygir yn flynyddol. Gall rhieni fwrw golwg dros y polisi pe dymument trwy gysylltu â'r ysgol yn gyntaf.

Prif egwyddor ac amcan ADY yr ysgol yw sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i holl blant yr ysgol, beth bynnag fo'u cyflwr addysgol, corfforol neu feddygol. Dylid sicrhau'r nod yma yn ddieithriad. Mae'r ysgol yn anelu at safonau uchel ar gyfer pawb a chymhwysiad cymdeithasol llawn.

Gwneir hyn trwy ateb gofynion deddf gwlad, trwy ddarparu yn ôl cyfarwyddyd ac arweiniad yr AALL a thrwy weithio yn fewnol mewn cydweithrediad â rhieni ac asiantaethau allanol, a hynny dan arolygaeth y corff llywodraethol. Cyfrifoldeb Mrs. Sharon Roberts, y Cydlynnydd ADY, yw sicrhau fod y ddarpariaeth ADY yn gyflawn, yn gyfredol ac yn gywir.

#### Adnoddau

- |          |     |   |
|----------|-----|---|
| Adnoddau | 1.  | Llyfrau i oed darllen isel ond diddordebau i oed ardegol.       |
| Dysgu    | 2.  | Cyfresi Dyfal Donc a Catch Up.                                  |
|          | 3.  | Y Cymhorthyddion wedi eu hyfforddi i ddilyn rhaglen Dyfal Donc. |
|          | 4.  | Offer Mathemategol i ddysgu sgiliau byw.                        |
|          | 5.  | Offer cyfrifiadurol.  |
|          | 6.  | 'Bydi' meithrin cyfeillgarwch atal bwlio.                       |
|          | 7.  | Rhaglenni addysg unigol.  |
|          | 8.  | Clybiau Darllen a Rhifedd                                       |
|          | 9.  | Cefnogaeth unigol gan gymhorthydd addysgol.                     |
|          | 10. | Cymhorthyddion Addysgol wedi mynychu cyrsiau HMS Cyngor Gwynedd |

Cyllid Swm penodol i A.D.Y drwy ddyraniad integreiddio  
Dyraniad Integreiddio gan y Sir.

Staff Mae'r Cydlynnydd A.A.A. yn gyfrifol am ateb gofynion A.A.A. yr ysgol.  
Mae cyfwerth a 6 cymhorthydd addysgol.  
Amser i'r cydlynnydd - 6 awr yr wythnos.  
Amser dysgu cynhaliol  
Amser grwpiau bach (dan 14)  
Hyfforddiant Cymorth Cyntaf I staff ymdopi ag anhwylderau megis Epilepsi a sud I ddefnyddio epi pen.

#### Asesu a Chynnal

Bydd anghenion yn cael eu canfod trwy:-

- i) Profion Cenedlaethol y Cynulliad
- ii) gwybodaeth a drosglwyddir gan ysgolion cynradd.
- iii) gwybodaeth a drosglwyddir gan asiantaethau allanol
- iv) waith ysgrifenedig, profion sillafu a thrwy i athrawon ddatgan pryder;
- v) asesiadau darllen o fewn y gwersi Cymraeg
- vi) asesiadau darllen o fewn y gwersi Saesneg

Profion Diagnostig gan athrawon arbennigol:

- vii) profion mathemategol - NFER (11 oed);
- viii) profion unigol Young's Parallel; Group Reading Test
- ix) Detailed assessment of Speed of Handwriting (DASH)
- x) Diagnostic Reading Analysis 2 (DRA)

Os oes arnynt angen cymorth, gweithredir ar ran y disgyblion, yn ôl eu hanghenion

#### **ADEILADAU**

Fe neilltuwyd y swm o £35,800 ar gyfer gwariant adeiladau a cynnal a chadw yr ysgol rhwng 1af o Ebrill 2014 hyd at 31ain o Fawrth 2015.

Dyma'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:-

- Ail osod duct slabs o amgylch yr ysgol - (Cyllideb ysgol)
- Ail osod ffens o amgylch y cwrt tenis - (Cyllideb ysgol)
- Gwaith trydanol - goleuadau allanol - (Cyllideb ysgol)
- Ail osod gwydrau drysau tan - (Cyllideb ysgol)
- Adnewyddu toiledau Adran technoleg - (Cyllideb ysgol)
- Archebu 'fryer' newydd i'r gegin - (Cyllideb ysgol)
- Ail osod cloeau ar ddrysau - (Cyllideb ysgol)
- Gwaith plymio cyffredinol o amgylch yr adeilad - (Cyllideb ysgol)
- Gosod arwyddion 'logo' Eifionydd tu allan i'r ysgol - (Cyllideb ysgol)

- Gosod ffens newydd o'r brif fynedfa i'r Uned iaith - (Cyllideb ysgol)
- Gosod bleinds newydd mewn rhai ystafelloedd dosbarth - (Cyllideb ysgol)
- Gwaith paentio tu allan i'r ysgol - (Cyllideb ysgol)
- Paentio drysau a phibellau allanol yr ysgol - (cyllideb ysgol).
- Paentio'r gampfa - (cyllideb ysgol).

#### Cyfleusterau/Toiledau

- Darperir cyfleusterau toiledau digonol I ddisgyblion, staff ac ymwelwyr o safon digonol.
- Mae toiled ar gyfer unigolion gydag anabledau ar lawr isaf yr ysgol
- Mae toiledau staff, ymwelwyr a thoiledau disgyblion arwahan.
- Mae'r toiledau yn cael eu glanhau yn drylwyr ar ddiwedd pob diwrnod ysgol.

#### **DYDDIADAU, TYMHORAU AC AMSERAU SESIYNAU**

##### **TYMOR**

Hydref 2014                      1 Medi 2014 - 19 Rhagfyr 2014  
 Gwanwyn 2015                 5 Ionawr 2015 -27 Mawrth, 2015  
 Haf 2015                         13 Ebrill, 2015 - 20 Gorffennaf 2015

Cafwyd 4 diwrnod Hyfforddiant mewn swydd a diwrnod dan reolaeth Ysgol.  
 Daw hyn a nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190.

#### **ABSENOLDEB 2014-2015**

Cyfradd Awdurdodedig -                      5.48%  
 Absenoldeb Anawdurdodedig -             0.72%  
 Cyfanswm Absenoldeb -                     6.20%

<b>2014-2015</b>	<b>CYLLIDEB</b>	<b>GWARIANT</b>	<b>GWEDDILL</b>
GWEITHWYR			
Staff Addysgu			
Athrawon	1244903	1239220.73	5682.27
Wrth Gefn Cytundeb tal	0	0	0
Athrawon ADY	19143	19392.08	-249.08
Llanw Arall	0	-11232.77	11232.77
Llanw Ad daliadau - Yswiriant Salwch	18000	9979.7	8020.3
Baich Athrawon	53170	50815.05	2354.95
Uned Cynhwysiad	400	159.56	240.44
Uwch Oruchwylwyr Amser Cinio	5821	6770.83	-949.83
Staff Ategol			
Staff Gweinyddol/Technegwyr	120432	120823.08	-391.08
Staff yr Awr	30695	29020	1675
Cymorthyddion AAA	97877	95262.1	2614.9
Anogwr Dysgu	12873	12873	0
Cyllid Amddifadedd	11000	18562.27	-7562.27
Arolygwyr Arholiadau	1700	1683.7	16.3
Costau Hysbysebu	1000	201.5	798.5
ADEILADAU			
Argyfwng Adeiladau	5000	4854	146
Cynllun Datblygu Adeiladau	10000	9905.88	94.12
Cynnal a Chadw Cyffredinol	13000	14846.23	-1846.23



Cynnal a Chadw Newydd	0	-1835	1835
Defnyddiau Glanhau	1500	1202.17	297.83
Dodrefn	1000	773.16	226.84
Trethi	42570	42570	0
Dwr	7000	7206.06	-206.06
Nwy	18000	19652.93	-1652.93
Trydan	20000	22555.22	-2555.22
Cynllun Rheoli Carbon	11174	11174	0
Cytundebau			
Glanhau	47070	47070	0
Goruchwylio Adeiladau - Adain Eiddo	3627	3627	0
Cynllun Datblygu Diogelwch	4500	5493.27	-993.27
Offer Ymladd Tan	800	1420.83	-620.83
CLUDIANT			
Lwfansau Ceir	800	755.91	44.09
Cludiant Cyrsiau Coleg	9000	7252.89	1747.11
Bysus	1000	1191.1	-191.1
Bws Mini	1500	1075.9	424.1
LWFANS Y PEN			
Adrannau	23000	22890.8	109.2
Adnoddau	1400	1687.85	-287.85
Addysg Iechyd	200	168.66	31.34
Anghenion Arbennig	400	400	0
Astudiaethau'r Gweithle	1500	2136.19	-636.19
Cronfa Tymor Hir Cyfrifiaduron	5606	5680.9	-74.9
Cyfieithu	350	-52.25	402.25
Cymorth Cyntaf	1000	750.81	249.19
Cyngor Disgyblion	100	0	100
Cwricwlwm	0	-20.55	20.55
Ffeiliau Cynnydd	400	0	400
Gwobr Dug Caeredin	100	0	100
Gyrfaoedd	200	186.68	13.32
Llungopio	0	-7061.42	7061.42
LLyfrgell	800	564.24	235.76
Llythrennedd	300	476.36	-176.36
Marc Ansawdd	300	268.88	31.12
Refeniw - Cyrsiau Lefel 1	10000	8156.88	1843.12
Sgiliau Sylfaenol	400	662.38	-262.38
Technoleg Hybysaeth	3000	3004.8	-4.8
Ysgol Werdd	150	9.45	140.55
Rhifedd	100	7.84	92.16
Cyllid Pennaeth	500	0	500
Cyllid Llywodraethwyr	100	30	70
Cyllid Cynlluniau Datblygu	0	0	0

CYFL A GWASANAETHAU			
Defnyddiau Swyddfa	3000	3000	0
Post	3000	2434.45	565.55
Arholiadau	45000	44525.55	474.45
Ffon	3500	2363.38	1136.62
GRANTIAU			
Pontio Cynradd/Uwchradd	0	0	0
Athrawon Newydd Gymhwyso	0	0	0
Rhaglen Cymorth Personol	0	0	0
Datblygiad Profesiynol 1	0	0	0
Datblygiad Profesiynol 2	0	0	0
CYFRIF HMS (HEN)	0	0	0
GWASANAETHAU ALLANOL			
Pyllau Nofio	1999	1649.15	349.85
Cynllun Busy Bees	400	124.34	275.66
Cyrsiau Allanol CA4	15000	14367.63	632.37
Cynllun Offerynnol - Gwasanaeth William Matheias			
Cynllun Offerynnol - GWARIANT	12000	15859.03	-3859.03
Cynllun Offerynnol - INCWM	0	-3575	3575
Cytundebau CYNNAL			
Cefnogaeth Cwricwlwm	0	0	0
CYNNAL - Atal firws a hidlo mynediad	0	1939	-1939
Cefnogaeth Systemau Rheoli	8334	8334	0
Cefnogi Offer cyfrifiadurol	10368	10368	0
CYNNAL - Cydlynnu CPYU	712	712	0
Patrymlun hunan arfarniad ar lein	606	606	0
Cynllun Partiau - Profion Trydanol	2362	1249.95	1112.05
Cytundebau SIROL			
Gwasanaeth Cyllidol	426	426	0
Rheoli Banc/Incwm	551	551	0
Cyflogau	4301	4301	0
Cynnal Tiroedd	11780	11780	0
Cytundeb Gwasanaeth Darparu Arlwyaeth			
Prydau Bwyd - GWARIANT	28370	130474.93	-102104.93
Prydau Bwyd - INCWM	0	-96719.17	96719.17
GEY/SEG a'r Grant Cymraeg mewn Addysg			
GEY - Blaenoriaeth 1 - L:lythrennedd a Rhifedd	0	-1916.89	1916.89
GEY - Blaenoriaeth 2 - Cau'r Bwlch	0	-322.51	322.51
GEY - Plant mewn Gofal (PMG)	0	1174.54	-1174.54
GEY - Grant y Gymraeg mewn Addysg (GCA)	0	2622.21	-2622.21
ARIAN WRTH GEFN	10000	0	10000
Llog ar Falansau	0	-711	711

CYFANSWM GWARIANT	2026170	1989888.47	36281.53
INCWM			
Gosodiadau Nos	-10000	-15510	5510
Gosodiadau - Dydd	-1000	-600	-400
Incwm Arall	0	-1616.86	1616.86
Grant Codi Safonau CA3	-12306	-12306	0
Grant Poblogaeth/Ynni	0	0	0
Grant Amddifadedd Disgyblion	-30294	-30294	0
Grant Anogwr Dysgu	0	0	0
Grant ANG	0	0	0
Grant Cynradd Uwchradd	0	0	0
Grant Rhaglen Cymorth Personol	0	0	0
Grant Cyrsiau Rhwydwaith	0	-7463.24	7463.24
Grant Y Bagaloriaeth	-3780	-8100	4320
Grant Cynhwysiad	0	0	0
CYFANSWM INCWM	-57380	-75890.1	18510.1
<b>CYFANSWM Y GYLLIDEB</b>	<b>1968790</b>	<b>1913998.37</b>	<b>54791.63</b>